Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dwyfor, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9HD
Pennaeth: Mrs. J Davies
Ffôn: 01554 758582

pennaeth@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
admin@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
http://www.brynsierfel.amdro.org.uk/

Bach yw hedyn pob mawredd

Annwyl Riant, Awst 25ain, 2020.

Yr wyf yn gobeithio eich bod chi wedi mwynhau gwyliau'r Haf. Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf ynghylch ail-agor ysgolion i bob disgybl ym Medi 2020, mae Cyngor Sir Gaer wedi penderfynu agor ysgolion yn raddol i sicrhau diogelwch pob disgybl ac aelod o staff.

Gweler y trefniadau isod ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i Ysgol Gymraeg Brynsierfel ym mis Medi.(Rhannwyd y trefniadau hyn gyda chi ym mis Gorffennaf). ***Noder os gwelwch yn dda y gall y manylion hyn newid**.

Dydd Iau, Medi 3ydd:
9:30yb-11:30yb:Disgyblion y Meithrin a oedd fod i ddechrau'r ysgol yn Ebrill;
1:00yp-3:00yp: Disgyblion y Meithrin sydd fod i ddechrau'r ysgol ym Medi;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 1;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 3;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 5.

Dydd Gwener, Medi 4ydd:
9:00yb-2:50yp: Disgyblion y Derbyn;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 2;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 4;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 6.

Dydd Llun, Medi 7fed:
9:30yb-3:00yp: Disgyblion y Meithrin sy'n llawn-amser ym Medi 2020;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 1;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 3;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 5.

Dydd Mawrth, Medi 8fed:
9:30yb-11:30yb:Disgyblion y Meithrin a oedd fod ddechrau'r ysgol yn Ebrill;
1:00yp-3:00yp: Disgyblion y Meithrin sydd fod ddechrau'r ysgol ym Medi;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion y Derbyn;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 2;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 4;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 6.

Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dwyfor, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9HD
Pennaeth: Mrs. J Davies
Ffôn: 01554 758582

pennaeth@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
admin@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
http://www.brynsierfel.amdro.org.uk/

Bach yw hedyn pob mawredd

Dydd Mercher, Medi 9fed:
9:30yb-3:00yp: Disgyblion y Meithrin sy'n llawn-amser ym Medi 2020;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 1;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 3;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 5.

Dydd Iau, Medi 10fed:
9:30yb-11:30yb: Disgyblion y Meithrin a oedd fod ddechrau'r ysgol yn Ebrill 2020;
1:00yp-3:00yp: Disgyblion y Meithrin sydd fod ddechrau'r ysgol ym Medi;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion y Derbyn;
9:15yb-3:00yp: Disgyblion Blwyddyn 2;
9:00yb-2:50yp: Disgyblion Blwyddyn 4;
8:45yb-2:40yp: Disgyblion Blwyddyn 6.

Dydd Gwener, Medi 11eg:
8:45yb-3:10yp: Pob disgybl i ddychwelyd i'r ysgol.

- Ni ddarperir cinio yn ystod y pythefnos cyntaf o ysgol ym mis Medi, felly bydd angen i chi roi pecyn bwyd iachus i'ch plentyn a photel o ddŵr os gwelwch yn dda.
- Bydd y Clwb Brecwast yn ail-agor ar Fedi 7fed ar gyfer goruchwyliaeth disgyblion yn unig a bydd yn agor o Fedi 14eg ar gyfer goruchwyliaeth disgyblion a brecwast ar eu cyfer. Byddaf yn eich diweddaru chi pan fydd mwy o wybodaeth ar gael oddi wrth yr AALl.
- Bydd Menter Cwm Gwendraeth yn ail-agor clwb ar ôl ysgol Bydis Brynsierfel ar Fedi 14eg a byddaf yn eich hysbysu o unrhyw wybodaeth bellach.
- Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru,noder os gwelwch yn dda, **ni chaniateir i rieni nac ymwelwyr ddod mewn i adeilad yr ysgol ar unrhyw adeg**. Oherwydd risg ddifrifol Coronafeirws, bydd y rheolau llym o ran Iechyd a Diogelwch yn parhau ym mis Medi. Gweler yn atodol copi arall o'r Cytundeb rhwng yr Ysgol a'r Cartref i chi a'ch plentyn arwyddo cyn iddo/iddi ddychwelyd i'r ysgol. **Trwy arwyddo'r ddogfen hon yr ydych yn cytuno gyda'r rheolau.**
- Er mwyn osgoi ciwio ar system unffordd y buarth, ceir amseroedd cyrraedd ac ymadael penodol ar gyfer y gwahanol grŵpiau blwyddyn. **A wnewch chi sicrhau eich bod chi'n glynu at yr amseroedd penodol hyn ar bob ymweliad os gwelwch yn dda i sicrhau diogelwch pawb.**

- Mae'n rhaid sicrhau bod **un rhiant neu oedolyn cyfrifol** yn mynd gyda'ch plentyn at ddrws y dosbarth i gwblhau asesiad risg beunyddiol **pob tro mae'ch plentyn yn mynychu'r ysgol.**

Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
Eco-Sgolion
Codi Caerau Sir Gâr
Sefydliad Morgan Parry Foundation
The Basic Skills Agency / Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
Quality Mark / Marc Safon
360 degree safe Cymru – Dilyniant i Ddiogelwch Ar-lein
@YGBrynsierfel

Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dwyfor, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9HD
Pennaeth: Mrs. J Davies
Ffôn: 01554 758582

pennaeth@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
admin@brynsierfel.ysgolccc.org.uk
http://www.brynsierfel.amdro.org.uk/

Bach yw hedyn pob mawredd

- Bydd aelod o staff yn eich cyfarch wrth giât cefn yr ysgol wrth i chi gyrraedd. Mae marciau clir ar y buarth y tu allan i bob dosbarth i sicrhau pellter o 2 fedr. Gofynnir yn garedig i chi giwio ar y marciau hyn nes bod aelod o staff wedi derbyn eich plentyn ac yna dilynwch y system unffordd allan o'r ysgol.
- O Fedi ymlaen, gofynnir i bob disgybl wisgo'r gwisg ysgol.
- Bydd angen i'ch plentyn ddod â bag ysgol sy'n cynnwys bocs bwyd, potel o ddŵr, eli haul, het haul a chot ysgafn.
- Bydd yr ysgol yn darparu waled plastig ar gyfer eich plentyn a fydd yn cynnwys yr offer sydd angen arno/arni.

Yr wyf yn gwerthfawrogi bod hon yn gyfnod anodd a phryderus a hoffwn achub y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Mae'r staff a finnau'n edrych ymlaen at groesawu'ch plentyn/plant yn ôl i'r ysgol ym mis Medi.
Yn ddiffuant,

Mrs.J.Davies

Pennaeth

Cc Mr.D.Jenkins

Cadeirydd y Corff Llywodraethol